# PENILLION YSTYRIOL RHAGOROL

YN DANGOS

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY

NAD OES AG NA FY AG NA FYDD DIM WAETH
NA PHECHOD, POB MEDDWL GAIR A
GWEITHRED CROES I EWYLLYS
DUW A ELWYR YN BECHOD.

ARGRAPHWYD YN Y MWYTHIG TROS LEWIS
WILLIAMS.

1737.

*Penillion ystyriol rhagorol yn dangos nad oes ag na fy ag na fydd dim waeth na phechod, pob Meddwl gair a gweithred croes i Ewyllys Duw a Elwyr yn bechod.*

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*Deuter.* 28. *Levit.* 26.

OS dewch yn nes yr holl gwmpeini,
Chwi gewch glywed Addysg genni,
Mewn Cynghanedd a scrythyre,
Fel a ddysgodd Duw i mine.

2 Rhoes fy amcan an holl feddwl,
I ddychymig hyn o gwbwl,
A chyd chwilio trwy gydwybod,
Pwy ddrygioni sydd mewn pechod.

3 Dywaid llawer wrth draws amcan,
Nad yw pechod ond peth bychan
Nid yw côl y sarph ond blewyn
Dûg y bigad fywyd chwippyn.

4 Rhaff yw pechod sydd yn llusgo,
Pob drygioni lle bo'n trigo,
Haint a newyn plag a rhyfel,
Sydd yn canlyn gwas y cythrel.

5 Digio Duw mae 'r bai Esgymyn,
A throir wyneb glân oddiwrthyn,
Stoppi glustie rhag ym gwrando,
Y mae pechod brwnt swthero.

6 Ni byſſe neb yn gwiſgo dillad,
On byſſe bechod or dechreuad,
Na thrallodion ar ddyn byw,
On byſſe bechu'n erbyn Duw.

7 Ni byſſe hau ni byſſe heinar,
Ni byſſe rhaid llafurio 'r ddaiar
Na bwytta bara'n chwys y talcen,
On byſſe bechod brwnt Anghymen.

8 Ni byſſe Achos Adeiliadu,
O ni byſſe y dynion *bechu*,
Nag un clô ar ddrws neu brennol,
O ni byſſe'r pechod marwol.

9 Ni byſſe ddim ond gwir ym ddwedyd,
Heb Anudoniaeth yn y hollfyd,
Nag un Jaith ond un ym ddiddan,
Oni byſſe'r pechod Aflan.

10 Ni byſſe ddiawl ni byſſe beene,
Ni byſſe uffern na diale,
Ni byſſe Loſgfa tân tragwyddol,
Oni byſſe'r pechod marwol.

11 Digio Duw bodloni ſatan,
Y mae pechod fawr a bychan,
Twyllo dynion wrth degane,
Werthu'r nef y brynu poene.

12 Toſt

12 Toſt oedd dial trwm oedd diſtruw,
u 'n y cynfyd gan a Dilyw,
ynt ar ddynion a nifeilod
Iwnnw ddaeth yn achos pechod.

13 O pwy chwipe annwyl blentyn,
nd y beche yn ei erbyn,
uw ni choſbe ddyn a thrallod,
ni bau achoſion pechod.

14 Achos pechod mae pob battel,
echod ſydd yn tynnu rhyfel,
id oes drwg ir wlad yn dyfod.
nd y ſydd yn acho pechod.

15 Os yw'r wlad yn ofni Rhyfel,
reiſio'u meddiant lladd y cenel,
adawn bechod tra fom Buw.
awn heddwch dyn a chariad Duw,

16 O gwnau ddaioni ym mhob amcan,
a fydd hynny y ti dy hunan,
s dilynu ddrwg yn ddyfal,
y di a'th hun a ddwg y dial.

17 Gwaſanaetha Dduw o Eitha'd allu,
gad bechod i newynu,
au ddedwyddwch dan'd' ofergod,
s ymrhoi di adel pechod.

18 Dwyn y deyrnas dwyn y goron,
Oddiar Frenhinoedd mawrion,
Y wna pechod Chwip ar frys,
Os cae barch tŷ fewn ir llus,

19 bwrw cedyrn ar bonddigion,
Tu hwnt ir drws oi teie mawrion
y wna pechod lle bo'n 'tifedd
A throi trigſa'n anghyfannedd.

20 Gwerthwys llawer ei meddiane,
A thref tadath ei hen deide,
Waith byw'n ofer yn ei pechod,
Au hiliogaeth heb un cwſgod,

21 Lloſgwyd miliodd am ei beie,
Crogwyd myrddiwn o fyrddiwne,
Cafodd cannodd ei llabyddio,
Achos pechod ei condemnio.

22 Er ei Dduw trwy wir ddoethineb,
Vneuthur pob peth mewn ffyddlondeb,
Etifarodd Duw er hynny,
Vneuthur dyn am iddo bechu.

23 Ci cynddiriog ar gyndaredd,
Hyllt wenwynllyd dyn ei ddannedd,
Sarph a cholyn llym yn gwarchod,
Y gwenwyno dyn yw pechod.

24 Uffernol

24 Mil o farre fydd yn barro
Purth y nef Rhag myned yno'
Allwydde 'n dacloi'r drws uffernol,
Yw'r gwrthnebus bechod marwol.

25 Y mae'r maen or mun yn llefain
Ar trawft yntef yn cyd ochain,
Ddydd a nos ynghluftie'r drindod
Ar Dduw ddial camwedd pechod.

26 Fe orf y'r mammau trwy wylofain,
Ladd a bwytta i plant ei hunain
r Tad ei Fab o hir newyndod
m fyw'n ddibris yn ei pechod.

27 Drwg iw Satan au dduchellion,
rwg yw'r gwenwon ladde ddynion :
rwg yw'r ferth ar holl wiberod
d oes dim mor ddrwg a phechod.

8 Trwm yw'r anhap trwm yw'r aflwydd
wm yw'r cwilydd trwm yw'r gwradwydd
wm yw'r Dial fydd yn dyfod,
y fawl fy'n pechu'n waftod.

9 Nid oes achos wrth fwyddogion
un carchar bollt na chyffon,
un cerydd trwy'r awdurdod,
y fydd er cofbi pechod.

30 O Pwy wnele yn wyllysgar,
peth wype fydde'n tisar,
Nid oes dyn or byd a becho,
Na ddel hynny 'n 'tisar iddo.

31 Yr hwn nad elo yn etifar
Am ei bechod ar y ddaear,
Fe fydd hwnnw mhwll uffernol,
Au difeirwch yn dragwyddol.

32 Pe Dioddefyd dan dy losgi,
Llew dy ddryllio dwr dy soddi
Neu dy Rhwygo Rhyng bwystfilod,
Etto'er hynny gochel bechod,

33 Pe na chilut cymmer addysg,
Rhag y trwst ar cerig cenllusg,
Etto'er hynny cila i gysgod,
Rhag y cas wrthnebus bechod.

34 Pe dioddefyd hyn o drwbwl,
Sarph au cholyn bigoth sowdwl,
Ag nas ofnit unrhyw drallod,
Gochel cila Rhag y pechod.

35 Y mae'r Tad ar mab ar Ysbryd,
Ar angelion Sanctaidd hefyd,
Ar Efengyl ou phregethu,
fydd yn Annog peidio pechu.

36 Y Rhai sy'n uffern yn y poeni,
Am ei pechod au drygioni,

Un't yn dymuno a gwyllyssu,
I bob cristion beidio pechu.

37 Fellu'n Nefoedd au hangelion,
A phwll uffern au drigolion,
Sydd yn gwrafyn dyn i bechu,
Nid oes ond Satan yn gwllyssu.

38 Nid oes dim ag attal dyn,
Y fynd ir nef at Dduw ei hyn,
Na dim yn damno y uffern issod,
Ond y cas echr ydys bechod.

39 Ni bysse'n Rhaid yr Jesu farw,
Ioddef drosom loeson chwerw,
In Rhyddhau or poen tragwyddol,
Oni bysse'r pechod Marwol.

40 O gan hynny heddyw heno,
ifarwn am aeth heibio,
rwy 'r ail berson yn y Drindod,
gawn fadde 'r diffaith bechod.

41 Nef yr hwn au cano'n gofus,
f i rhai gwrandawo 'n barchus;
lle dwede 'r sawl au clywo,
f yr hwn au gwnaethe i drigo.

*William Evan o blwyf Trefethin*
*yn Sir* Fynwy *au Canodd.*

*Pedwar pennill Newydd yn dangos rhan o dai Arferion Pobloedd* 1735.

O Dewch yn nes rowch Glist y Cymru,
Y wrando yn weddus hyn o ganu,
Nesertan sychan o Benillon,
trwy gymmorth Jesu yn prynwr tirion.

2 Rwy yn gweld cyfyddion meddwon digllon,
Barnwyr dyngwyr mwrddwyr lladron.
Yn mynd yr Eglwys mor ddirysadd
Hepprisio byth am wellai buchedd.

3 Ar rai synarfer godinebu,
Frost ysgelar a gwatwaru
Ron synydd bob drygioni
Rhag i mynd dros syth y boyni.

4 Gwn y Bydd hi yn rhy ddiweddar,
Pan Gorfyddo mynd yr ddaiar.
edifaru am bychodau,
Dymar pryd ym mhrown i wellai.

T E R F Y N.

Argraphwyd yn y *Mwythig* tros *Lewis William*,
Gwerthwr Llyfrau.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY